# Canllawiau ar Ymchwilio Diogel i Arwyddion Larwm Tân

**Cynnwys**

1. CEFNDIR
1.1 Dull osgoi risg
2. YMCHWILIO DIOGEL I ARWYDDION LARWM TAN
2.1 Nifer o bobl enwebedig yn bresennol a bennwyd ymlaen llaw (e.e. yn ystod oriau gwaith arferol)
2.2 Iechyd a diogelwch personau enwebedig
2.3 Nifer o bobl enwebedig a bennwyd ymlaen llaw nad oedd yn bresennol (e.e. tu allan i oriau gwaith arferol), ond yn breswylwyr yn bresennol yn yr adeilad
2.4 Un person enwebedig yn bresennol (e.e. swyddog diogelwch unigol)
2.5 Neb enwebedig yn bresennol na dim preswylwyr eraill ychwaith
3. RHOI SICRWYDD I STAFF
3.1 Rhestr Wirio ar gyfer Person(au) Cyfrifol
4. GEIRFA TERMAU

## 1. CEFNDIR

O ganlyniad i'r nifer uchel barhaus o alwadau diangen o'r system synhwyro tân a larwm yr ydym yn eu mynychu, bydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) yn mabwysiadu polisi 'herio galwadau' mewn perthynas â galwadau sy'n deillio o weithredu system larwm tân awtomatig (AFA) (drwy dderbyn galwad brys 999 neu o ganolfan derbyn larymau (CDL).


Yn unol â hynny, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, bydd sefyllfaoedd lle na fydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn anfon peiriannau tân ar ôl derbyn galwad sy'n deillio o weithredu system larwm tân oni bai y gall y galwr gadarnhau bod tân neu arwyddion sy'n dynodi tân.

Daeth hyn yn angenrheidiol oherwydd ni ellir cynnal y lefel bresennol o arwyddion larwm tân diangen (LTD) y mae'r Gwasanaeth yn cael eu galw iddynt. Yn yr un modd, rhaid ymchwilio'n ddiogel i'r amgylchiadau pan fydd larwm tân yn canu. Amcan y canllaw hwn yw cynorthwyo Personau Cyfrifol i ymchwilio i arwyddion larwm tân yn yr eiddo cyn galw GTADC.

Mae angen gwahaniaethu rhwng larwm ffug, sydd, sef seinio system larwm tân o ganlyniad i achos heblaw tân, ac arwydd larwm tân diangen, sydd yn larwm ffug gan system larwm tân sydd wedi'i throsglwyddo i GTADC.

Paratowyd y canllawiau hyn i gynorthwyo personau cyfrifol a bennwyd yn unol â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 gyda pholisi ymateb newydd GTADC i LTA, sy'n weithredol o’r **6ed o Ionawr 2025.**

Yn debyg i wasanaethau tân ac achub eraill ledled y DU, mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn wynebu baich mawr ar adnoddau o ganlyniad i'r lefel uchel barhaus o alwadau sy'n deillio o arwyddion larymau tân y mae'r Gwasanaeth yn cael eu galw iddynt. Er enghraifft, yn 2023/24, mynychodd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (y Gwasanaeth) 5974 o Arwyddion Tân Diangen (GTD), a oedd yn cyfrif am 31.5% o’r holl alwadau a fynychwyd. Yn ogystal, roedd 1518 o alwadau GTD a gafodd eu hidlo/herio adeg yr alwad, a chafodd 929 o alwadau GDT eraill eu hadalw wrth fynd i ddigwyddiadau. Felly, cyfanswm effaith galwadau LTD ar y gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn 2023/24 yw 8421.




Ffigwr 1 Galwadau'n deillio o arwydion larymau tân GTADC

Mae gan y GTD hyn lawer o effeithiau andwyol:

• Maent yn effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael i ymateb i danau go iawn ac argyfyngau eraill trwy ddargyfeirio gwasanaethau hanfodol.

• Maent yn effeithio ar yr amser sydd ar gael ar gyfer gwaith gwerthfawr arall, megis hyfforddiant a gweithgareddau diogelwch cymunedol. Pan fydd criwiau tân yn cynnwys diffoddwyr tân 'ar alwad' (y cyfeirir atynt weithiau yn ddiffoddwyr tân wrth gefn), gallai fod y criwiau'n cael eu cludo oddi wrth eu gweithle yn ddiangen.

• Maent yn effeithio ar ddiogelwch ffyrdd i griwiau tân ac aelodau'r cyhoedd, o ganlyniad i beiriannau tân yn teithio dan amodau brys.

• Maent yn effeithio ar yr amgylchedd gan gynnwys y nifer o deithiau gan beiriannau yn ogystal â rhoi straen ar arian cyhoeddus.

Yn fwy cyffredinol, mae galwadau diangen yn effeithio ar barhad busnes gan arwain at golled ariannol i fusnesau achos tarfu ar waith gweithwyr. Mae lleihau galwadau diangen nid yn unig yn lleihau GTD ond hefyd yn lleihau'r effaith andwyol ar barhad busnes a allai godi fel arall.

O ystyried yr amgylchiadau a amlinellwyd uchod, o'r **6ed o Ionawr 2025**, bydd polisi GTADC o ran ymateb LTA yn golygu:

• Bydd pob galwad yn ystod y dydd (0800-1759) i actifadu system larwm tân yn cael ei herio gan weithredwyr rheoli tân, ac eithrio cartrefi gofal/nyrsio ac adeiladau preswyl uchel nad ydynt yn cydymffurfio â thân. Mae herio galwadau yn weithdrefn lle, oni bai bod y digwyddiad yn cael ei ystyried yn dân a gadarnhawyd; bydd angen i'r Person Cyfrifol ar gyfer y safle archwilio'r signal larwm. At ddiben y polisi hwn, bernir bod digwyddiad yn dân a gadarnhawyd os gall y galwr gadarnhau bod tân neu arwydd o dân.

Ni all y canllawiau hyn fynd i'r afael â phob amrywiad posibl yng ngweithrediad eiddo, ond bwriad y canllawiau yw rhoi cyngor cyffredinol ar ymchwilio'n ddiogel a/neu gadarnhau tân pan fydd system larwm tân yn gweithredu.

## 1.1. Dull osgoi risg

Bydd unrhyw drefniant sy'n cynnwys ymchwilio i arwyddion larwm tân, yn ei hanfod, yn cynnwys elfen fach o risg, y mae'n rhaid ei rheoli a'i lliniaru. Yn unol â hynny, y mesur mwyaf sylfaenol ddylai fod osgoi galwadau diangen cyn belled ag y bo'n ymarferol. Dylai hyn fod yn amcan wrth ddylunio'r system larwm tân a rheolaeth y safle.

Fel y nodwyd uchod, mae nifer o amgylchiadau lle bydd angen i staff Person Cyfrifol ymchwilio i signal larwm tân cyn y dylid galw'r gwasanaeth tân ac achub neu y byddant yn fodlon mynychu hyd yn oed os cânt eu galw.

Mae amgylchiadau o'r fath yn cynnwys y canlynol:

• Mae'r gweithdrefnau tân ar gyfer yr eiddo yn gofyn am ymchwilio i arwyddion larwm (neu rai arwyddion larwm) cyn galw GTADC. Ar gyfer y rhan fwyaf o adeiladau, dyma'r trefniant delfrydol, a ddylai fod wedi'i lunio gan y Person Cyfrifol, gan ystyried polisi ymateb GTADC ar gyfer LTA, yn ogystal ag unrhyw bolisi gan y sefydliad i leihau aflonyddwch i fusnes oherwydd galwadau diangen.

• Mae polisi herio galwadau GTADC yn golygu bod galwr yn cael ei hysbysu na fydd presenoldeb oni bai y gellir cadarnhau bod tân neu arwydd o dân.

• Yn rhinwedd gweithdrefn a bennwyd ymlaen llaw, mae ARC yn cysylltu â'r eiddo i ofyn am gadarnhad o dân cyn i'r CDL alw GTADC.

• Mae'r Ganolfan Reoli Tân ar y Cyd yn hysbysu CDL na fydd unrhyw bresenoldeb oni bai y gellir cadarnhau bod tân neu arwydd o dân, sy'n arwain at alwad gan yr CDL i'r eiddo yn gofyn am ragor o wybodaeth.

• Mae'r Ganolfan Reoli Tân ar y Cyd yn hysbysu CDL na fydd unrhyw bresenoldeb oni bai y gellir cadarnhau bod tân neu arwydd o dân, sy'n arwain at hysbysu daliwr allweddi gan y CDL achos bod yr adeilad yn wag.

## 2. YMCHWILIO DIOGEL I ARWYDDION LARWM TAN

Mae'n hanfodol, lle bydd angen, fel rhan o weithdrefnau tân, i bobl ar y safle ymchwilio i signal larwm tân cyn galw GTADC, bod gweithdrefnau diogel ar gyfer cyflawni hyn.

Bydd hyn yn gofyn am rag-gynllunio digonol i enwebu'r rhai sydd i gyflawni'r dasg hon; mae gweithdrefnau ad hoc pan fo'r system larwm tân yn gweithredu yn annhebygol o fod yn ddigon diogel. Mewn eiddo masnachol amlfeddiannaeth, mae angen cydweithredu rhwng meddianwyr i gynllunio ymlaen llaw a chydgysylltu'r trefniadau. Dylai'r rhai sy'n cael eu henwebu ar gyfer y dasg fod wedi'u hyfforddi'n briodol ac yn gorfforol alluog ar gyfer y dasg.

Dylai hyfforddiant sicrhau bod y personau a enwebir yn gwbl gyfarwydd â:

• rolau a chyfrifoldebau'r rhai a enwebwyd i ymchwilio i arwyddion larymau tân;

• cynllun y safle ac unrhyw drefniadau arbennig ar gyfer mynediad i ardaloedd penodol;

• y mesurau amddiffyn rhag tân yn yr eiddo, gan gynnwys unrhyw fesurau amddiffyn rhag tân gweithredol a allai ddod i rym wrth weithredu'r system larwm tân;

• unrhyw beryglon tân arbennig o fewn y safle (e.e. presenoldeb silindrau nwy);

• unrhyw beryglon sy'n gysylltiedig â systemau llethu tân yn yr adeilad;

• dehongli a defnyddio offer rheoli a dangos larymau tân (ORhD). Yn y cyswllt hwn, mae'n bwysig bod y personau enwebedig, mewn system larwm tân y gellir mynd i'r afael â hi, yn gallu pennu'r math o ddyfais a ysgogodd y signal larwm tân (e.e. pwynt galw â llaw, synhwyrydd gwres, synhwyrydd mwg neu ben taenellu).

• nodi lleoliad tân posibl, gan gynnwys dehongliad o'r cynllun parth ac unrhyw destun y gellir mynd i'r afael ag ef ar arddangosfa ORhD;

• achos ac effaith perthnasol y system larwm tân (e.e. a oes cyfnod ymchwilio ac, os felly, hyd y cyfnod);

• a ellir defnyddio lifftiau yn ystod yr ymchwiliad;

• defnyddio unrhyw offer cyfathrebu;

• symudiad diogel drwy'r adeilad, gan gynnwys dealltwriaeth o, er enghraifft, unrhyw systemau rheoli mynediad electronig;

• y dulliau dianc sydd ar gael (gan gynnwys unrhyw ddihangfa gyfyngedig y tu allan i oriau gwaith);

• arwyddion nodweddiadol o dân;

• gweithredu ar ddarganfod tân, yn enwedig sut i alw GTADC a sicrhau bod signal gwacáu wedi'i roi;

• nodi unrhyw ganfodydd tân sydd wedi seinio galwad ffug (h.y. ymwybyddiaeth o synwyryddion LED, tystiolaeth weledol o weithrediad pwynt cyswllt â llaw);

• gweithredu ar wirio galwad ffug, gan gynnwys y dull o ailosod yr ORhD, unrhyw drefniadau angenrheidiol ar gyfer ailosod offer critigol arall, a threfniadau ar gyfer galw contractwr cynnal a chadw larymau tân os oes angen;

• amgylchiadau lle mae tawelu'r larwm clywadwy yn dderbyniol os bydd larymau clywadwy yn canu yn ystod y cyfnod ymchwilio (e.e. er mwyn galluogi cyfathrebu radio ac osgoi amlygiad gormodol i sŵn uchel), er y dylid nodi na ddylai system larwm tân fyth fod wedi ei dawelu cyn y sicrheir fod yr holl ddeiliaid wedi ymgilio i'r graddau priodol;

• trefniadau ar gyfer cydgysylltu rhwng y rhai sy'n ymchwilio i arwyddion larwm tân ac unrhyw wardeniaid tân yn y safle;

• trefniadau ar gyfer cofnodi'r digwyddiad yn y llyfr log perthnasol ac, os oes angen, gychwyn ymchwiliad pellach i'r achos.

Mae angen i'r Person Cyfrifol bennu nifer y bobl y mae angen iddynt ymchwilio i arwyddion larwm tân ar unrhyw adeg mewn treialon ymarferol. Yn ddelfrydol, ni ddylai'r nifer hwn fod yn llai na thri; mae hyn yn galluogi trefniant lle mae dau berson yn symud ymlaen i leoliad y signal larwm, tra bod un yn aros yn y ORhD.

Cydnabyddir na fydd hyn bob amser yn bosibl ac nid yw nifer llai o reidrwydd yn anniogel. Fodd bynnag, gall y trefniadau ymchwilio amrywio yn ôl a yw'r isafswm arferol o bobl a bennir gan y Person Cyfrifol yn bresennol neu a yw nifer y bobl yn llai na hyn (e.e. y tu allan i oriau gwaith arferol).

Yn unol â hynny, yn is-adrannau canlynol y canllaw hwn, ymdrinnir â phedwar senario, sef:

• nifer y personau enwebedig a bennwyd ymlaen llaw yn bresennol;

• nid yw nifer y personau enwebedig a bennwyd ymlaen llaw yn bresennol (e.e. achos ei fod y tu allan i oriau gwaith arferol);

• mae un person enwebedig yn bresennol (e.e. swyddog diogelwch unigol);

• amgylchiadau lle nad oes unrhyw bersonau enwebedig i ymateb i arwyddion larwm (e.e. oherwydd bod yr adeilad yn wag).

Cydnabyddir y gall fod ardaloedd o adeilad, gyda chanfodyddion tân ynddo, sy'n anodd eu cyrraedd (e.e. ystafelloedd peiriannau wedi'u cloi, codwyr gwasanaeth a gwagleoedd nenfwd/llawr). Fodd bynnag, er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, cyfrifoldeb y Person Cyfrifol yw cynllunio ar gyfer mynediad diogel i'r holl fannau lle mae synwyryddion tân wedi'u lleoli (boed hynny gan y rhai sy'n ymchwilio i'r arwyddion larwm neu gan bobl eraill sydd â'r cyfleusterau angenrheidiol ar gyfer mynediad) er mwyn ymchwilio i'r arwyddion larwm; nid rôl GTADC yw gweithredu ar ran y Person Cyfrifol yn hyn o beth.

Os penderfynwyd bod arwydd larwm yn alwad ffug, dylid ailosod y ORhD cyn gynted ag y gellir sicrhau nad yw achos y larwm ffug yn bresennol mwyach. Dylid cymryd y camau hyn cyn gynted ag sy'n ymarferol fel bod y system larwm tân yn gallu ymateb i unrhyw dân go iawn. Hyd yn oed os yw GTADC wedi mynychu, nid ein rôl ni yw ailosod y ORhD. Os na all y rhai ar y safle ailosod y system (boed hynny oherwydd diffyg gwybodaeth neu nam yn y system), dylai fod trefniant yn ei le i alw am gymorth priodol (e.e. gan y contractwr cynnal a chadw larymau tân).

Rhaid cofnodi pob galwad ffug yn llyfr log y system, gan ddarparu cymaint o wybodaeth berthnasol â phosibl. Mae fformat addas ar gyfer y cofnod hwn i'w weld yn Atodiad F BS 5839-1: 2017. Mae hyn yn bwysig achos bydd y log hwn yn cael ei archwilio gan dechnegwyr cynnal a chadw fel rhan o waith cynnal a chadw arferol y system larwm tân. Bydd y log yn galluogi technegwyr cynnal a chadw i gynorthwyo'r Person Cyfrifol i nodi tueddiadau ac achosion cyffredin mewn perthynas â galwadau diangen er mwyn cymryd camau priodol i leihau'r tebygolrwydd y bydd yn digwydd eto.

### 2.1 Y nifer o bobl enwebedig yn bresennol a bennwyd ymlaen llaw (e.e. yn ystod oriau gwaith arferol)

Dylai rhan gyntaf unrhyw ymchwiliad archwilio'r ORhD i nodi'r lleoliad y mae signal larwm tân wedi'i gychwyn ohono. Dylid nodi, yn achos system gyrchadwy y gellir nodi lleoliad a math y synhwyrydd penodol a ysgogodd y signal larwm.

Pwrpas yr ymchwiliad yw cadarnhau a oes tân gwirioneddol neu a yw'r arwydd yn alwad ffug. Dylai nifer y bobl sydd eu hangen yn ddiogel i gynnal yr ymchwiliad gael ei bennu gan y Person Cyfrifol drwy dreialon ymarferol ac asesiad risg. Dylai fod gan y personau sy'n ymchwilio i ddull o gyfathrebu sy'n caniatáu lleferydd dwy ffordd rhyngddynt.

Dylai un person aros yn y ORhD, tra dylai'r bobl eraill fod mewn parau yn ystod yr ymchwiliad. Os bydd synhwyrydd neu barth arall yn actifadu, dylid trin hwn fel signal y mae mwy nag un synhwyrydd mwg wedi gweithredu ynddo. Felly, gellir ei drin fel tân wedi'i gadarnhau, dylid galw'r GTADC a dylid rhoi'r gorau i'r ymchwiliad.

Dylai'r tîm ymchwilio fynd ymlaen i'r parth/synhwyrydd sydd wedi actifadu, gan ddefnyddio llwybrau dianc gwarchodedig lle bo'n bosibl, wrth adrodd ar eu cynnydd a'u lleoliad. Gallai adroddiadau o'r fath roi cyngor ar newid lefel y llawr o fewn yr adeilad a/neu gael eu rhoi ar

gyfnodau amser penodol. Y nod yw canfod a yw'r actifadu'n ddilys. Gall arwyddion bod actifadu yn ddilys fod:

- Mwg
- Gwres
- Arogl llosgi
- Gweld fflam
- Sŵn llosgi (clecian, popio, ac ati).

Os canfyddir unrhyw un o'r arwyddion hyn (naill ai gan y rhai sy'n ymchwilio neu ddeiliaid eraill yr adeilad), dylid hysbysu'r person yn ORhD, er mwyn ffonio GTADC.

Mae Erthygl 13 o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yn ei gwneud yn ofynnol, lle bo angen, er mwyn sicrhau diogelwch y personau perthnasol mewn perthynas â niwed a achosir gan dân, bod yn rhaid i'r Person Cyfrifol sicrhau bod y safle perthnasol, i'r graddau y mae yn briodol, gyda dulliau priodol o ymladd tân. Ymhellach, mae Erthygl 13 hefyd yn mynnu bod y Person Cyfrifol yn enwebu personau cymwys i ddefnyddio'r diffoddyddion tân.

Yn unol â hynny, mewn rhai achosion, bydd yn briodol i'r rhai sy'n ymchwilio i arwyddion larwm tân gymryd camau i ddiffodd tân bach gyda'r diffoddyddion tân cludadwy a ddarperir, ond dim ond ar ôl sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i wacáu'r adeilad a galw GTADC.

Rhan bwysig o'r hyfforddiant a roddir i bersonau a enwebwyd i ymchwilio i arwyddion larwm yw'r defnydd o ddiffoddyddion tân cludadwy ac, yn bwysig iawn, cydnabod amgylchiadau lle, er eu diogelwch eu hunain, na ddylid gwneud unrhyw ymdrech i ymladd tân.

## 2.2 Iechyd a diogelwch personau enwebedig

Mae risg bod y personau enwebedig sy'n ymchwilio i'r arwydd tân yn symud ymlaen tuag at dân gwirioneddol. Dylai'r sefydliad gynhyrchu asesiad risg iechyd a diogelwch i fynd i'r afael â hyn.

Cyn agor unrhyw ddrysau, dylid teimlo'r drws gyda chefn y llaw, mor uchel ar y drws ag y gellir ei gyrraedd, am arwyddion o wres. Os yw'n boeth, ni ddylid agor y drws. Gellir ystyried y rhagbrawf hwn yn arwydd o dân a gellir galw GTADC heb fod angen unrhyw ymchwiliad pellach.

Cofiwch fod staff yn chwilio am arwyddion o dân, nid tân ei hun o reidrwydd. Yn ogystal, mae defnydd diogel o ddiffoddyddion tân cludadwy yn cael ei bwysleisio eto.

Wrth ymchwilio i arwydd larwm, yn amodol ar sicrwydd bod gwacáu'r adeilad wedi'i gwblhau i'r graddau sy'n angenrheidiol, gellir ystyried distewi'r larwm clywadwy os yw'r asesiad risg perthnasol yn penderfynu y byddai hyn yn briodol i osgoi gwneud pobl yn agored i sŵn uchel. Bydd hyn hefyd yn hwyluso gwell cyfathrebu lleisiol rhwng aelodau'r tîm ymchwilio.

Os penderfynwyd, fel rhan o'r asesiad risg perthnasol, bod y rhai sy'n ymchwilio i arwyddion larwm yn cael defnyddio lifft i gyrraedd y llawr perthnasol (a allai fod yn annerbyniol ym mhob amgylchiad), dylid mynd â'r lifft i'r llawr islaw lle y tarddodd y signal larwm tân ohono, ac o ba le y dylid cael mynediad drwy staer warchodedig.

## 2.3 Nifer o bobl enwebedig a bennwyd ymlaen llaw nad oedd yn bresennol (e.e. tu allan i oriau gwaith arferol), ond yn breswylwyr yn bresennol yn yr adeilad

Yn achos eiddo “lle nad oes neb yn cysgu” heb neb enwebedig yn bresennol, dim ond preswylwyr yn yr adeilad, dylid dilyn y gweithdrefnau gwagio arferol ar gyfer yr adeilad; dim ond y rhai sydd wedi'u hyfforddi mewn ymchwilio ddylai ymchwilio i unrhyw larymau sy'n canu.

O dan yr amgylchiadau hyn, ni fydd GTADC yn mynychu'r eiddo oni bai y gellir cadarnhau bod arwydd o dân. Fel rhan o’u hasesiadau risg a threfniadau diogelwch tân, dylai’r Person Cyfrifol sicrhau bod unrhyw feddianwyr yn yr adeilad (e.e. y tu allan i oriau gwaith arferol) yn ymwybodol o’r gweithdrefnau i’w dilyn os bydd y system larwm tân yn gweithredu. Gall hyn gynnwys trefniadau ar gyfer galw personél addas i ddelio â'r arwydd larwm tân.

Dylid nodi, er enghraifft, mewn rhai lleoliadau perthnasol lle mae pobl yn cysgu, efallai na fydd, ar rai adegau, unrhyw bersonau enwebedig i ymchwilio i arwyddion larwm tân. Mae enghreifftiau’n cynnwys rhai blociau o fflatiau gyda threfniadau gwacáu ar yr un pryd, rhai preswylfeydd myfyrwyr, gwestai bach heb staff nos, ac ati.

Cyfrifoldeb y Person Cyfrifol yw gwneud trefniadau yn yr eiddo hwn i wysio'r gwasanaeth tân ac achub os bydd tân; mae hyn yn un o ofynion Erthygl 13 o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

### 2.4 Un person enwebedig yn bresennol (e.e. swyddog diogelwch unigol

Mae'r achos hwn yn wahanol i'r categori blaenorol, sef bod gan y gweithiwr unigol gyfrifoldeb dynodedig am ddiogelwch a sicrwydd adeilad. Yn yr achos hwn, mae'n arbennig o bwysig bod y gweithiwr unigol wedi'i hyfforddi'n briodol i ddehongli'r larwm tân ORhD, fel ei fod yn gallu darparu gwybodaeth berthnasol i GTADC cyn belled ag y bo'n ymarferol.

Yn yr un modd, fel yn achos pob person a enwebir, rhaid i'r gweithiwr unigol fod yn gwbl gyfarwydd â chynllun yr adeilad, llwybrau cylchredeg o fewn yr adeilad, unrhyw beryglon sy'n bresennol, ac ati. Dylid cymryd gofal arbennig yn hyn o beth yn achos, er enghraifft, swyddog diogelwch newydd, nad yw wedi'i neilltuo i weithio yn yr adeilad dan sylw o'r blaen. Rhaid ystyried gallu’r gweithiwr unigol ar gyfer y tasgau gofynnol (e.e. symudedd).

Pwysleisir bod rhaid cynllunio'r drefn ymchwilio ymlaen llaw; mae gweithdrefnau ymchwilio ad hoc a gychwynnir ar fenter y gweithiwr unigol yn unig yn annerbyniol.

Nid oes modd nodi trefn unigryw, generig a fydd yn briodol ar gyfer pob adeilad. Ar y naill law, yn achos swyddfeydd cynllun agored y mae nifer o risiau gwarchodedig yn mynd atynt, gallai fod yn dderbyniol i’r gweithiwr unigol ymchwilio i’r signal larwm, ar yr amod ei fod, yn gyntaf, wedi hysbysu person priodol (e.e. mewn ystafell reoli) o'r amgylchiadau. Lle bo modd, dylai'r gweithiwr unigol barhau i gyfathrebu'n barhaus, neu o leiaf mewn cyfathrebu cyfnodol, gyda'r person priodol hwn.

Ar y llaw arall, bydd amgylchiadau, achos lleoliad tân posibl neu beryglon sy'n debygol o fod yn y lleoliad hwnnw, pan na fydd ymchwiliad gan y gweithiwr unigol yn weithdrefn ddiogel. O dan yr amgylchiadau hyn, dylai’r trefniant a gynlluniwyd ymlaen llaw, yn seiliedig ar asesiad risg cyfredol, fod i’r gweithiwr unigol alw am ragor o gymorth (e.e. trwy ystafell reoli, gan gydweithwyr o bell, gan bersonél rheoli adeiladau neu gynnal a chadw, ac ati).

Dylid nodi y gall y trefniant ymchwilio a gynlluniwyd ymlaen llaw fod yn wahanol, yn ôl parth tarddiad yr arwydd larwm tân. Dylid nodi hefyd nad yw’r asesiad risg, y mae’r trefniant ymchwiliad a gynlluniwyd ymlaen llaw yn seiliedig arno, yn asesiad risg tân a gynhaliwyd ar gyfer cydymffurfio â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

Wrth rag-gynllunio ar gyfer ymchwiliad, mae angen ystyried datblygiad posibl tân go iawn yn y cyfnod rhwng galw am gymorth o bell a dyfodiad cymorth o'r fath ar y safle. Bydd hyn yn effeithio ar y camau i'w cymryd gan y gweithiwr unigol yn y cyfamser.

Yn gyffredinol, yn achos gweithiwr unigol, ni ddylid ceisio mynd i'r afael â thân; ar ôl darganfod tân, ni waeth pa mor fach, dylai'r gweithiwr unigol dynnu'n ôl, sicrhau bod GTADC yn cael eu galw'n ddi-oed, ac yna aros iddynt gyrraedd. Dim ond pan fydd mwy nag un person enwebedig ar y safle y dylid cymryd camau i ddiffodd tân.

Lle bo'n ymarferol, dylid ystyried defnyddio technoleg i gadarnhau presenoldeb tân go iawn yn ystod y cyfnod ymchwilio. Er enghraifft, mewn llawer o systemau larwm tân, gellid trefnu bod yr arwydd larwm tân cychwynnol yn rhoi rhybudd yn y ORhD yn unig (ar yr amod bod y ORhD yn cael ei fonitro'n barhaus gan y gweithiwr unigol). Yna gallai signal larwm tân arall o ail ddyfais weithredu seinyddion ledled yr adeilad, sy'n dangos i'r gweithiwr unigol fod yna bellach, trwy ddiffiniad, arwydd o dân; byddai'r gweithiwr unigol wedyn yn rhoi'r gorau i'r ymchwiliad ac yn sicrhau bod GTADC yn cael ei wysio'n ddi-oed a'i hysbysu bod dwy ddyfais wedi gweithredu.

Gelwir hyn yn drefniant cyd-ddigwyddiad o fewn y system larwm tân (weithiau, yn anghywir, yn cael ei ddisgrifio fel "cnocio dwbl"). Dylid nodi bod hyn, weithiau, yn bosibl hyd yn oed mewn system larwm tân na ellir ei chyfeirio; byddai'r trefniant cyd-ddigwyddiad yn yr achos hwn yn cynnwys gweithredu dau barth annibynnol o'r system larwm tân.

### 2.5 Neb enwebedig yn bresennol na dim preswylwyr eraill ychwaith

Gellir dadlau mai dyma'r amgylchiadau anoddaf a ddisgrifir yn y canllawiau hyn. Gan fod yr adeilad yn hollol wag, dim ond mewn lleoliad anghysbell y gellir derbyn arwydd o larwm tân. Mae'r larwm fel arfer yn cael ei drosglwyddo i weithredwyr mewn canolfan derbyn larymau (CDL) ond gellir ei drosglwyddo (e.e. dros ffôn symudol) i bersonél allweddol y Person Cyfrifol.

Mae'n bwysig nodi na fydd GTADC yn bresennol. Mae'r camau i'w cymryd gan yr CDL a'r Person Cyfrifol o dan yr amgylchiadau hyn yn fater i'r contract rhwng y Person Cyfrifol a gweithredwr CDL yn unig.

Yn nodweddiadol, o dan yr amgylchiadau hyn, bydd y contract yn ei gwneud yn ofynnol i'r CDL hysbysu deiliad yr allwedd. Yn ddelfrydol, dylai fod o leiaf ddau ddeiliad allwedd ar gael i gysylltu â nhw, fel, os na cheir ymateb gan y prif ddeiliad allwedd, y gall y CDL raeadru ymdrechion i gysylltu â deiliaid allweddi eraill.

Fel yn achos adeiladau a feddiannir gyda phobl a enwebwyd i gynnal ymchwiliad, cyfrifoldeb y Person Cyfrifol yw cynllunio ymlaen llaw ar gyfer ymchwiliad diogel i arwyddion larwm gan ddeiliaid allweddi, yn seiliedig ar asesiad risg sy'n benodol i'r eiddo. Yn unol â hynny, dim ond cyngor cyffredinol y gellir ei roi yn y ddogfen ganllaw hon.

Wrth gyrraedd yr adeilad, dylai deiliad yr allwedd fel arfer wneud archwiliad gweledol o berimedr yr adeilad i wirio am unrhyw arwydd o dân, cyn mynd i mewn i'r adeilad. Os oes unrhyw arwyddion o dân, dylid galw GTADC yn ddi-oed; ni ddylai deiliad yr allwedd fynd i mewn i'r adeilad, ond dylai aros i GTADC gyrraedd.

Os na fydd yr archwiliad hwn yn datgelu unrhyw arwyddion o dân, fel arfer bydd yn ddiogel i ddeiliad yr allwedd fynd i mewn i'r adeilad i gyrraedd y larwm tân ORhD (gan gymryd bod y ORhD, er enghraifft, wedi'i leoli'n nodweddiadol ym mynedfa'r adeilad).

Wedi hynny, bydd y weithdrefn y dylid ei dilyn yn debyg iawn i'r un a ddisgrifir uchod ar gyfer ymchwilio i larymau lle mai dim ond un person enwebedig sy'n bresennol ac nad oes unrhyw feddianwyr eraill yn yr adeilad (gweler uchod).

Fodd bynnag, yn achos deiliad allwedd unigol, dylid pwysleisio rhai pwyntiau, sef:

• Dylai hyfforddiant deiliaid allweddi sydd i ymchwilio i arwyddion larwm tân, a gwybodaeth am yr adeilad sy'n deillio ohono, fod o safon gyfatebol i'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer swyddog diogelwch unigol.

• Dylai'r asesiad risg ar gyfer deiliad yr allwedd unigol ystyried, yn ystod yr amser sydd ei angen ar gyfer galw deiliad allwedd a'i daith i'r adeilad, fod unrhyw dân gwirioneddol yn debygol o fod yn fwy na'r hyn a archwiliwyd gan bobl ar y safle pan fydd y system larwm tân  yn gweithredu. Gallai hyn atal ymchwil i arwyddion larwm o ystafelloedd risg uchel, lle rhagwelir datblygiad tân cyflym o fewn yr asesiad risg.

• Unwaith eto, argymhellir yn gryf y dylid ystyried datrysiadau technolegol a fyddai'n cynorthwyo i adnabod tân go iawn.

• Wrth gyrraedd y safle, dylai deiliad yr allwedd gysylltu â pherson priodol (e.e. mewn ystafell reoli neu debyg, neu, er enghraifft, rheolwr llinell) i roi gwybod iddynt am eu presenoldeb ar y safle. Mewn achos swyddog diogelwch unigol, er enghraifft, dylai deiliad yr allwedd, lle bo'n bosibl, barhau i gyfathrebu'n barhaus, neu o leiaf mewn cyfathrebu cyfnodol, â'r person priodol hwn.

Fel y nodwyd eisoes, yr arfer cyfredol wrth drosglwyddo arwyddion tân i LTA yw, wrth weithredu system larwm tân mewn adeilad, fod un signal tân cyffredinol yn cael ei drosglwyddo i'r LTA, O ystyried y polisi ymateb LTA newydd, dylai'r Person Cyfrifol drafod gyda darparwr neu gynhaliwr eu system larwm a/neu unrhyw gwmni sy'n monitro eu system larwm tân mewn ARC, trefniadau mwy datblygedig yn dechnolegol.

Er enghraifft, mewn llawer o systemau, byddai'n bosibl trawsyrru signal a ysgogwyd gan un synhwyrydd mwg a fyddai'n cael ei nodi yn yr CDL fel “tân heb ei gadarnhau” (y gellid galw, er enghraifft, daliwr allwedd iddo). Byddai wedyn yn aml yn bosibl trosglwyddo ail signal i CDL, y gellir ei adnabod fel “tân wedi'i gadarnhau”, pe bai ail synhwyrydd mwg yn gweithredu. (Mae trefniant o'r fath wedi bodoli ers blynyddoedd lawer yn y diwydiant larymau tresmaswyr ac mae wedi arwain at leihad sylweddol yn nifer o alwadau ffug gan systemau tresmaswyr a fynychwyd gan yr Heddlu.)

Yn yr un modd, mewn rhai systemau, mae'n bosibl defnyddio gwahanol sianeli o'r “offer llwybro larwm” (sy'n trosglwyddo arwyddion i CDL) ar gyfer trosglwyddo arwyddion o bwyntiau galw â llaw neu systemau taenellu a synwyryddion mwg, er enghraifft, fel bod y CDL gallai gynghori GTADC a oedd signal yn arwydd o dân.

Hefyd, lle mai dim ond trwy, er enghraifft, synwyryddion tân aml-synhwyrydd neu systemau taenellu y gellir sbarduno arwyddion o'r safle, mae'n bwysig bod y CDL yn ymwybodol o hyn, fel y gellir hysbysu GTADC yn unol â hynny.

## 3. RHOI SICRWYDD I STAFF

Wrth gyfleu polisi ymateb Larwm Tân Awtomatig GTADC i weithwyr y Person Cyfrifol, mae'n bwysig cyfleu i weithwyr:

• cefndir a chyfiawnhad dros y polisi;

• manteision y polisi o ran diogelwch y cyhoedd (e.e. drwy sicrhau bod diffoddwyr tân ar gael i fynd at danau gwirioneddol/argyfyngau eraill, cyflawni gweithgareddau atal tân, gweithio i sicrhau diogelwch pobl agored i niwed, a lleihau'r risg o ffyrdd damweiniau);

Gellir deall o bosib bydd rhai gweithwyr yn teimlo pryder y gofynnir iddynt gyflawni tasgau a allai eu rhoi mewn perygl ac a allai ymddangos yn gwrthdroi polisïau traddodiadol, a oedd yn cynnwys cyfarwyddyd i'r cyhoedd alw'r gwasanaeth tân ac achub mew nachos o dân a gwacáu'r adeilad.

Yn unol â hynny, mae'n bwysig i weithwyr ddeall na fu unrhyw wrthdroi cyngor i'r cyhoedd er mwyn osgoi rhoi eu hunain mewn perygl o dân gwirioneddol. Y cyfan sy'n ofynnol gan weithwyr yw, o dan rai amgylchiadau diffiniedig a risg isel, bod presenoldeb tân yn cael ei gadarnhau cyn galw'r gwasanaeth tân ac achub.

Er enghraifft, ni ddisgwylir i'r cyhoedd gyflawni'r rôl a gyflawnir yn draddodiadol gan ddiffoddwyr tân (na fu erioed mewn gwirionedd yn ymchwiliad i arwyddion larwm tân, ond yn hytrach weithred i ddiffodd tân mewn achos o dân). Yn y cyswllt hwn, dylai staff fod yn dawel eu meddwl ynghylch y risg fach iawn i weithwyr o ganlyniad i'r polisi ymateb LTA newydd â llawer mwy o fuddion, gan gynnwys y manteision i ddiogelwch y cyhoedd, a ddisgrifir uchod.

Dylai'r sicrwydd hwn gynnwys esboniad i'r cyfeiriad hwn (fel crynodeb o wybodaeth flaenorol):

• nid yw'r polisi'n effeithio ar eiddo megis cartrefi gofal ac adeiladau preswyl uchel nad ydynt yn cydymffurfio, sy'n cynrychioli'r eiddo lle mae'r perygl mwyaf i fywyd mewn achos o dân;

• mae synwyryddion mwg yn gallu canfod tân bach iawn hyd yn oed ( a dyna'r rheswm dros y tueddiad i gynhyrchu galwadau diangen). Yn unol â hynny, mae rhywfaint o wirionedd bod ymchwiliad i arwydd larwm gan un synhwyrydd mwg sy'n cael ei wneud pan fydd tân yn dal yn fach, yn achosi'r perygl lleiaf posibl ac yn aml mae modd ei ddiffodd gyda diffoddydd tân cludadwy.

• dylid rhoi sicrwydd i weithwyr bod dyletswydd gyfreithiol ar ran cyflogwyr i sicrhau, eu diogelwch cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, a hefyd eu gallu i gyflawni unrhyw dasgau sy'n ofynnol ganddynt. Yn unol â hynny, mae trefniadau ar gyfer ymchwilio i arwyddion larwm tân yn destun asesiad risg.

Mae gan GTADC berthynas waith ardderchog gyda chymuned fusnes De Cymru. Yn y cyswllt hwnnw, mae GTADC yn awyddus i gefnogi'r gymuned fusnes drwy'r newidiadau a fydd yn angenrheidiol yn dilyn cyflwyno polisi ymateb LTA. Gellir cysylltu ag adran Diogelwch Rhag Tân i Fusnesau GTADC os bydd angen cymorth.

Mae GTADC yn argymell yn gryf bod y Person(au) Cyfrifol yn trafod yr atebion gorau i fynd i'r afael â pholisi ymateb LTA gyda'u gosodwr larymau tân, cwmni cynnal a chadw ac unrhyw gwmni sy'n gweithredu CDL y mae arwyddion tân yn cael eu trosglwyddo iddo.

### 3.1 Rhestr Wirio ar gyfer Person(au) Cyfrifol

Bwriad y rhestr wirio ganlynol yw cynorthwyo'r Person(au) Cyfrifol i gymryd camau priodol i fynd i'r afael â pholisi GTADC o ran ATD o'r **6ed o Ionawr 2025**.

1. Ydych chi a staff perthnasol yn gwbl ymwybodol o bolisi ymateb GTADC i LTA?

2. Ydych yn ymwybodol o'r amgylchiadau, pan fydd eich system larwm tân yn gweithredu y bydd, ac na fydd, GTADC yn mynychu os cânt eu galw?

3. Ydych wedi rhoi gwybod i'ch yswirwyr am bolisi ymateb GTADC i LTA, yn enwedig os yw yswirwyr wedi ystyried unrhyw gyfleuster ar gyfer trosglwyddo arwyddion tân yn awtomatig i ARC?

4. Ydych wedi enwebu nifer digonol o weithwyr i ymchwilio i arwyddion larwm tân? A ydych wedi cadarnhau bod y gweithwyr hyn yn gallu cyflawni'r tasgau sy'n ofynnol ganddynt?

5. Ydych wedi cynnal asesiad risg mewn perthynas ag ymchwilio i arwyddion larwm tân gan y gweithwyr a enwebwyd?

6. Ydych wedi llunio gweithdrefnau ymchwilio, yn seiliedig ar yr asesiad risg y mae 5. yn cyfeirio ato?

7. Ydy'r gweithdrefnau ymchwilio yn mynd i'r afael â phob un o'r senarios canlynol (lle bo'n berthnasol):

• ymchwilio i arwyddion larwm pan fo nifer digonol o weithwyr enwebedig yn bresennol;

• ymchwilio i arwyddion larwm pan fo nifer annigonol o weithwyr enwebedig yn bresennol, ond bod eraill yn byw yn yr adeilad;

• ymchwilio i arwyddion larwm pan mai dim ond un person enwebedig sy'n bresennol yn yr adeilad, sydd, fel arall, yn wag;

• ymchwilio i arwyddion larwm pan nad oes neb yn bresennol yn yr adeilad, ond bod arwyddion larwm tân yn cael eu trosglwyddo i CDL;

8. A ddarparwyd cyfleusterau cyfathrebu priodol i'w defnyddio wrth ymchwilio i arwyddion larwm tân ac a ydynt yn cael eu gwirio a'u profi'n rheolaidd?

9. A ydych wedi ystyried yn llawn, o fewn eich asesiad risg, ymchwiliad diogel gan weithwyr unigol ac unrhyw gyfleusterau technolegol i gefnogi eu diogelwch?

10. Ydy'r holl weithwyr a enwebwyd i ymchwilio i arwyddion larwm wedi cael hyfforddiant perthnasol? Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddeiliaid allweddi y bydd gofyn iddynt ymchwilio i arwyddion larwm tân y tu allan i oriau gwaith arferol.

11. A oes unrhyw drydydd parti y bydd gofyn iddynt ymchwilio i arwyddion larwm tân (e.e. swyddogion diogelwch dan gontract) wedi cael hyfforddiant addas?

12. A yw'r hyfforddiant yn cynnwys dehongliad o offer rheoli larymau tân ac offer dynodi, a gwybodaeth, yn ogystal â gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio'n ddiogel i arwyddion larwm tân?

13.' Ydy'r staff yn gyfarwydd â'r dulliau cywir o ailosod rheolydd y larwm tân a nodi offer?

14. Ydy'r holl staff perthnasol yn gwybod am y trefniadau ar gyfer galw cwmni cynnal a chadw larymau tân os oes angen?

15. Ydy'r holl staff sy'n gweithio y tu allan i oriau gwaith arferol yn gwybod am y gweithdrefnau i'w dilyn os bydd y system larwm tân yn gweithredu pan nad oes neb yn bresennol i ymchwilio i arwyddion larwm tân?

## 4. GEIRFA TERMAU

• System larwm tân gyrchadwy

System larwm tân lle mae arwyddion gan ganfodyddion, pwyntiau galw â llaw neu unrhyw ddyfeisiau eraill yn cael eu hadnabod yn unigol wrth y rheolydd larwm tân ac offer dangos (mewn cyferbyniad â system larwm tân anhydrin, lle dim ond y parth tarddiad larwm a nodir ).

• LTA

Larwm Tân Awtomatig

• Canolfan derbyn galwadau (CDA)

Adeiladau â staff parhaus, sy'n bell o'r rhai lle mae'r arwydd larwm tân wedi'i gosod, lle mae'r wybodaeth am gyflwr y system larwm tân (e.e. arwydd larwm tân) yn cael ei harddangos a/neu ei recordio, fel bod modd galw'r gwasanaeth tân ac achub.

• Offer rheoli a dangos (ORhD) (a ddisgrifir hefyd fel "y panel rheoli")

Yr offer y mae synwyryddion tân ac ati yn cael pŵer ohono ac sy'n dangos arwydd larwm tân yn glywadwy ac yn weledol

• Gweithrediad cyd-ddigwyddiad (weithiau, yn anghywir, mae hwn yn cael ei ddisgrifio fel "cnoc dwbl")

Trefniant a gynlluniwyd fel bod allbwn penodol yn cael ei sicrhau pan fydd arwyddion gan o leiaf ddwy ddyfais canfod tân annibynnol yn bresennol ar yr un pryd yn unig

•Larwm ffug

Arwydd tân o ganlyniad i achos nad yw'n dân

• Canfodydd tân aml-synhwyrydd

Synhwyrydd tân sy'n monitro mwy nag un ffenomen ffisegol a/neu gemegol sy'n gysylltiedig â thân (e.e. gwres a mwg)

• "Arwydd o dân"

Sefyllfa lle mae person wedi nodi amgylchiadau sy'n arwydd o dân (e.e. arogl llosgi, mwg, fflamau, sŵn fflamau'n clecian, ac ati) neu fod system larwm tân wedi gweithredu wrth ymateb i ddyfais y gwyddys ei bod yn ddyfais nad yw'n synhwyrydd mwg (e.e. pwynt galw â llaw, synhwyrydd gwres, synhwyrydd tân aml-synhwyrydd, pen taenellu neu fwy nag un synhwyrydd mwg)

• Signal Larwm Tân Diangen (STD)

Galwad ffug gan system larwm tân sydd wedi arwain at alw'r Gwasanaeth Tân ac Achub.